

**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWIYD YN SIAMBR Y CYNGOR -
SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB AR
DYDD MERCHER, 16 MAI 2018 AM 15:00**

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

S Aspey	SE Baldwin	TH Beedle	JPD Blundell
NA Burnett	MC Clarke	N Clarke	RJ Collins
HJ David	P Davies	SK Dendy	DK Edwards
J Gebbie	T Giffard	RM Granville	CA Green
DG Howells	A Hussain	RM James	B Jones
M Jones	MJ Kearns	DRW Lewis	JE Lewis
JR McCarthy	DG Owen	D Patel	RL Penhale- Thomas
AA Pucella	KL Rowlands	RMI Shaw	CE Smith
SG Smith	JC Spanswick	RME Stirman	G Thomas
JH Tildesley MBE	E Venables	SR Vidal	MC Voisey
LM Walters	KJ Watts	CA Webster	DBF White
PJ White	A Williams	AJ Williams	HM Williams
JE Williams	RE Young		

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JC Radcliffe, B Sedgebeer a/ac T Thomas

Swyddogion:

Susan Cooper	Cyfarwyddwr CorfO blaidaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr CorfO blaidaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro)
Andrew Jolley	Cyfarwyddwr CorfO blaidaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol
Gary Jones	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Mark Shephard	Cyfarwyddwr CorfO blaidaethol - Cymunedau
Kelly Watson	Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

174. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

175. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y MAER, Y CYNGHORYDD P. A. DAVIES

Cyhoeddodd y Maer ei bod wedi mynychu'r Mosg lle roedd hi/ei chyfaill wedi cyfarfod â'r Imam a'r Henuriaid a soniodd wrthynt am eu crefydd a beth roedd yn ei olygu iddyn nhw. Cawsant daith o amgylch y Mosg a the a bisgedi gyda thrafodaeth dda i ddilyn. Fe wnaethon nhw hefyd fynd i noson 'Teyrnged i Tom Jones' a fynychwyd gan 79 o bobl a chodwyd £1189 a £202 o'r raffl.

Cynhaliwyd Gala'r Maer yng Ngwesty Heronston ac roedd hi'n dymuno diolch i'r Cynghorwyr, ffrindiau a theulu a fynychodd, gan ei bod yn noson wych.

Roedd hi hefyd wedi mynychu digwyddiad yng Ngorsaf Dân Pen-y-bont ar Ogwr i nodi nifer y Dynion Tân oedd wedi colli eu bywydau ers 1902. Gosodwyd carreg a phlannwyd helygen i gofio amdanyn nhw. Cynhaliwyd gwasanaeth a chafwyd nifer o areithiau. Yn dilyn hyn cyflwynodd darian gydag arfbais Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr arni i'r Pennaeth Tân.

Ymwelodd y Maer â Stadiwm Dinas Caerdydd hefyd a chyflwynodd Dystysgrifau i Gadetiaid y Fyddin. Roedd y Cadetiaid i gyd o Academi Filwrol Pen-y-bont ar Ogwr yn bresennol ac fe wnaethant roi arddangosfa o orymdeithio, Ymarfer Dril ac Ymarfer CorfO blaidol.

Yn ddiweddar, roedd hi a'i Chyfaill wedi mynychu Dawns Maer Tref Maesteg. Dymunodd yn dda i Faer /Maeres Cyngor Tref Maesteg ar gyfer y dyfodol nawr bod eu rôl wedi dod i ben. Roedd y Maer hefyd wedi mynychu Dawns y Maer yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Ychwanegodd fod Margaret Tegg yn ysbrydoliaeth, ac wedi ei chefnogi trwy gydol ei thymor fel maer. Roedd hi'n 82 mlwydd oed ar ddiwrnod y ddawns a derbyniodd gymeradwyaeth wresog gyda'r gynulleidfa ar eu traed yn diolch am ei gwasanaeth.

Roedd y Maer hefyd wedi mynychu Dydd Sul Dinesig y Maer Tref Pencoed, ac roedd hwn hefyd wedi bod yn ddigwyddiad arbennig.

Yn anffodus, roedd y Maer wedi mynychu angladd y cyn Faer, Colin Teesdale, yn ddiweddar, a fu'n Faer mawr ei barch ar y Fwrdeistrefol Sirol a hefyd yn Faer Tref Maesteg.

Cadarnhaodd y Maer hefyd y byddai hi'n mynychu angladd Gareth Davies y dydd lau canlynol. Yn aelod o dîm HART, roedd yn Barafeddyg mawr ei barch a oedd bob amser yn barod i deithio'r filltir ychwanegol. Bu'n gydweithiwr ac yn gyfaill am dros 30 mlynedd, a byddai pawb yn cael ei golli, a theimlai fod y Gymuned wedi colli gweithiwr proffesiynol ymroddedig.

Roedd y Maer / ei Chyfaill wedi mynychu Diwrnod Golff yng Nghlwb Golff Grove gyda 9 o Dimau yn cymryd rhan. Diolchodd i bawb a gymerodd ran yn y digwyddiad hwn.

Roedd y Maer hefyd wedi mynychu Dawns Flynyddol y Llewod lle cyflwynwyd siec am £300 iddi hi a'i Chyfaill ar gyfer ei helusennau.

Cyhoeddodd y Maer ei bod yn mynd i gymryd rhan yn y 'Daith Strôc' ar 20 Mai yng Nghaeau Newbridge. Pe bai unrhyw un yn dymuno ei noddi, roedd amser o hyd i wneud hynny, ychwanegodd.

Yn olaf, cadarnhaodd fod ei blwyddyn yn ei swydd fel Maer wedi mynd yn eithriadol o dda, a diolchodd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cefnogaeth barhaus yn ystod y 12 mis diwethaf.

176. ETHOL Y MAER I'W ARWISGO YN Y SEREMONI DDINESIG AGORIADOL AR 23 MAI 2018 A'R MAER (A ETHOLWYD) I GYHOEDDI ENW EI GYMAR/ HEBRYNGWR

Gwnaed cynnig a eiliwyd yn briodol ac a gefnogwyd yn unfrydol, y dylid penodi'r Cynghorydd J.R. McCarthy yn Faer ar gyfer 2018/19.

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd J. R. McCarthy fel Maer am y flwyddyn i ddod.

CYNGOR - DYDD MERCHER, 16 MAI 2018

Cyhoeddodd y Cynghorydd McCarthy mai ei Gyfar am y flwyddyn i ddod fyddai ei wraig Mrs Judy McCarthy.

177. PENODI'R DIRPRWY FAER I'W ARWISGO YN Y SEREMONI DDINESIG AGORIADOL AR 23 MAI 2018 A'R DIRPRWY FAER (A ETHOLWYD) I GYHOEDDI ENW EI GYMAR/HEBRYNGWR

Gwnaed cynnig a eiliwyd yn briodol, y dylid penodi'r Cynghorydd E. E. Baldwin yn Ddirprwy Faer ar gyfer 2018/19.

Cynigiodd Aelod y dylid cynnal pleidlais wedi'i chofnodi ar benodi'r Dirprwy Faer, ac eiliwyd hyn yn briodol.

Felly, cynhaliwyd pleidlais electronig er mwyn sefydlu a ddylid cymryd pleidlais wedi'i chofnodi ynghylch y penodiad hwn, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn: -

<u>Dros</u>	<u>Yn erbyn</u>	<u>Ymatal</u>
50	1	0

Gan fod hyn wedi cael ei gytuno, cymerwyd pleidlais wedi'i chofnodi am benodi'r Cynghorydd Baldwin fel Dirprwy Faer am y cyfnod uchod, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn: -

Ethol Dirprwy Maer (Penderfynwyd)	
Cynghorydd Sean Aspey	Ymatal
Cynghorydd Stuart Baldwin	O blaid
Cynghorydd Tom Beedle	Ymatal
Cynghorydd Jon-Paul Blundell	O blaid
Cynghorydd Nicole Burnett	O blaid
Cynghorydd Mike Clarke	Ymatal
Cynghorydd Norah Clarke	Ymatal
Cynghorydd Richard Collins	O blaid
Cynghorydd Huw David	O blaid
Cynghorydd Paul Davies	O blaid
Cynghorydd Pam Davies	O blaid
Cynghorydd Sorrel Dendy	Ymatal
Cynghorydd Keith Edwards	Ymatal
Cynghorydd Jane Gebbie	O blaid
Cynghorydd Tom Giffard	Ymatal
Cynghorydd Richard Granville	O blaid
Cynghorydd Cheryl Green	Ymatal
Cynghorydd Gareth Howells	O blaid
Cynghorydd Altaf Hussain	Ymatal
Cynghorydd Malcolm James	O blaid
Cynghorydd Brian Jones	Ymatal
Cynghorydd Martyn Jones	O blaid
Cynghorydd Mike Kearns	O blaid
Cynghorydd David Lewis	O blaid
Cynghorydd Janice Lewis	O blaid
Cynghorydd John McCarthy	O blaid
Cynghorydd David Owen	Ymatal
Cynghorydd Dhanisha Patel	O blaid
Cynghorydd Ross Penhale-Thomas	Ymatal

Cynghorydd Aniel Pucella	Ymatal
Cynghorydd Kay Rowlands	Ymatal
Cynghorydd Rod Shaw	O blaid
Cynghorydd Charles Smith	O blaid
Cynghorydd Stephen Smith	O blaid
Cynghorydd John Spanswick	O blaid
Cynghorydd Roz Stirman	O blaid
Cynghorydd Gary Thomas	O blaid
Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE	O blaid
Cynghorydd Elaine Venables	Yn erbyn
Cynghorydd Sadie Vidal	Ymatal
Cynghorydd Matthew Voisey	Ymatal
Cynghorydd Lyn Walters	Ymatal
Cynghorydd Ken Watts	O blaid
Cynghorydd Carolyn Webster	Ymatal
Cynghorydd David White	O blaid
Cynghorydd Philip White	O blaid
Cynghorydd Alex Williams	O blaid
Cynghorydd Amanda Williams	Ymatal
Cynghorydd Hywel Williams	O blaid
Cynghorydd Julia Williams	O blaid
Cynghorydd Richard Young	O blaid
Cariwyd	

<u>Dros</u>	<u>Yn erbyn</u>	<u>Ymatal</u>
31	1	19

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd S. E. Baldwin yn Ddirprwy Faer ar gyfer y flwyddyn 2018/19.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Baldwin, o ganlyniad i lefel ymrwymiadau gwaith ei bartner, na fyddai'n cael Cymar am y flwyddyn i ddod.

178. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y MAER OEDD NEWYDD EI ETHOL

Cadarnhaodd y Cynghorydd McCarthy ei fod yn teimlo ei bod yn anrhydedd mawr iddo gael ei ethol yn Faer a gwasanaethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn swydd mor uchel ei pharch. Ychwanegodd fod ei dymor fel Dirprwy Faer wedi bod yn brysur iawn ond yn werth chweil, ac yn ystod y cyfnod hwn roedd wedi mynychu nifer sylweddol o ddigwyddiadau fel arweinydd allweddol dros yr Awdurdod. Ychwanegodd ei fod yn edrych ymlaen at gyfnod yr un mor brysur yn ystod y flwyddyn i ddod.

179. Y MAER I GYHOEDDI'R MAER IEUENCTID A'R DIRPRWY FAER IEUENCTID

Cadarnhaodd y Maer y byddai enwau'r Maer Ieuenctid a'r Dirprwy Faer Ieuenctid yn cael eu cyhoeddi rywbryd yn y dyfodol agos.

180. ETHOL ARWEINYDD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

Gwnaed cynnig a eiliwyd yn briodol, y dylai'r Cynghorydd Huw David gael ei ethol yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2018/19.

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Huw David yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am y flwyddyn i ddod.

181. CYTUNO AR NIFER YR AELODAU I'W PENODI I'R CABINET

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet ar gyfer 2018/19 yn cynnwys yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a phedwar Aelod Cabinet yn cefnogi portffolios.

182. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Yn gyntaf, estynnodd yr Arweinydd ddiolch arbennig iawn i'r Maer, y Cynghorydd Pam Davies am gynrychioli'r awdurdod o fewn ein Bwrdeistref Sirol a chynrychioli Pen-y-bont ar Ogwr ar draws Cymru mor dda, gyda hyder a rhwyddineb, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon. Estynnodd ei longyfarchiadau hefyd i'r Maer newydd, y Cynghorydd John McCarthy a'i gymar, a hefyd i Ddirprwy Faer newydd CBSP, sef y Cynghorydd Stuart Baldwin.

Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i staff CBSC, gan mai dim ond oherwydd eu gwaith caled a'u gwasanaeth yr oedd y Cyngor yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau hanfodol a wnâi, ac ymddengys bob blwyddyn y gofynnir mwy oddi wrth y staff, er bod llai a llai ohonynt. Roedd un swyddog yn arbennig y dymunai ddiolch iddo heddiw, sef Andrew Jolley a oedd yn ei gyfarfod olaf fel Cyfarwyddwr CorfO blaidaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth a Swyddog Monitro. Fel enghraifft o sut yr ydym yn parhau i ofyn mwy gan swyddogion, rhoddwyd cyfrifoldeb iddo ef dros Dai, TGCh, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Cwsmer. Roedd bob amser wedi ystyried bod Mr Jolley yn gadarn ond yn deg, ac roedd wedi bod yn ffyddlon iawn i'w staff, ac wedi credu yn yr athroniaeth o "dyfu eich pobl eich hun" ac wedi gwireddu hynny. Cyfrifoldeb allweddol y Swyddog Monitro yw hyrwyddo a chynnal llywodraeth dryloyw ac agored a safonau uchel o uniondeb, ac mae adroddiadau olynol gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi dangos bod y safonau hynny ar waith o fewn CBSP. Diolchodd iddo am ei wasanaeth, a gobeithiai y byddai'n mwynhau ei ymddeoliad, gyda'i wyrion, ac yn trwsio hen geir.

Diolchodd Mr. Jolley i'r Arweinydd a'r holl Aelodau am y gefnogaeth a gafodd ers iddo fod yn gweithio i CBSP. Yn yr un modd diolchodd i'r Swyddogion am eu cefnogaeth hefyd. Roedd hyn, ychwanegodd, wedi gwneud ei swydd yn haws i'w chyflawni. Cadarnhaodd i ddiweddu ei fod wedi mwynhau ei amser yn fawr yn yr Awdurdod ers iddo ddechrau gweithio yma ryw 14 o flynyddoedd yn ôl.

Cadarnhaodd yr Arweinydd ei bod yn anrhydedd ac yn fraint iddo gael ei ailethol unwaith eto gan gyd-Aelodau fel Arweinydd, a diolchodd iddynt am eu cefnogaeth barhaus.

Ychwanegodd na allai wasanaethu fel Arweinydd heb gefnogaeth ei gydweithwyr yn y Cabinet.

Roedd yn hyderus y byddai'r tîm hwn yn parhau â'r gwaith da sydd eisoes wedi digwydd, ac fel bob amser, roedd yn ddiolchgar am eu hymrwymiad tuag at eu gwaith.

Nid oedd gwasanaethu mewn unrhyw rôl fel Aelod etholedig yn waith hawdd, ac fel y gwyddom oll, mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod ymhlith y rhai anoddaf, os nad y rhai mwyaf anodd y mae'r Cyngor erioed wedi gorfod eu hwynebu.

Ond beth bynnag fo'r heriau sydd wedi codi, mae'r Awdurdod wedi wynebu pob un ohonynt, ac yn parhau i wneud hynny gyda phenderfyniad a phwrpas unedig ar draws y Siambr, i gefnogi ein cymunedau lleol hyd eithaf ein gallu.

Mae llymder cenedlaethol diddiwedd yn parhau, ac fel Cyngor, rydym yn parhau i ymdrechu i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn erbyn cefndir o adnoddau sy'n lleihau'n barhaus.

Gyda dros £30 miliwn i'w gynilo dros y 4 blynedd nesaf, bydd llawer o'r penderfyniadau y mae'n rhaid i ni eu gwneud yn amhoblogaidd, ond fe'u gwneir gyda ffocws cadarn ar realiti ein hamgylchedd newidiol, ac ar warchod ein gwasanaethau mwyaf hanfodol a'n dinasyddion mwyaf agored i niwed.

Pan ystyrid lle'r oeddem pan ddechreuon ni ar hyd y daith hon ac ystyried lle mae'r awdurdod bellach, mae'r Cyngor wedi dangos dro ar ôl tro ei fod yn gallu ymateb ac wynebu pa bynnag heriau newydd y mae'n rhaid eu hwynebu.

Yn hytrach na methu, roedd CBSP wedi datblygu ffyrdd newydd o ddiwallu anghenion ei gymunedau lleol, ac yr oedd yn falch o'r hyn a gyflawnodd gyda'i gilydd fel 'Un Cyngor.'

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, y Cynllun CorfO blaidaethol a Rhaglen Newid Pen-y-bont ar Ogwr wedi eu sefydlu i'n tywys ni a sicrhau ein bod yn gallu addasu a diwallu anghenion lleol a hefyd sicrhau arbedion gwerth miliynau o bunnoedd sydd eu hangen i gyflawni cyllideb gytbwys.

Yn y broses hon, roedd CBSP yn sefydliad a oedd yn dal ati i ganfod ffyrdd newydd ac arloesol o weithio gyda phartneriaid a chymunedau eraill, yn uniongyrchol ac ochr yn ochr â hwy.

Mae ein hagenda trawsnewid eisoes wedi cyflawni arbedion mawr trwy adleoli staff, cau swyddfeydd, rhesymoli ystadau, rhannu gwasanaethau gyda'r heddlu, prosiectau cydweithredol, ail-negodi contractau a gweithio gyda sefydliadau partner llwyddiannus megis HALO ac Awen.

Mae'r bartneriaeth Gwasanaethau Rheoleiddio gyda Chaerdydd a Bro Morgannwg bellach wedi'i hen sefydlu; Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw'r cynllun cydweithredu mwyaf ymhlith awdurdodau lleol erioed yng Nghymru, ac mae ein gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu yn chwalu targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru lai na blwyddyn ar ôl ei lansio.

Mae'r cyntaf o'r targedau hynny yn dechrau yn 2019 gyda Chynghorau lleol yn disgwyl ailgylchu 64 y cant o'r holl wastraff. O'r mis diwethaf, roedd ein cyfradd ailgylchu ein hunain yn 68.5 y cant, cynnydd o fwy na deg y cant o'i gymharu ag Ebrill 2017.

Roedd hyn yn newyddion da, ac edrychir ymlaen at weld y gwasanaeth yn gwella hyd yn oed yn fwy yn ystod ei ail flwyddyn o weithredu. Diolchodd i'r trigolion am eu hamynedd yn enwedig yn ystod y dyddiau cynnar, am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd dros ailgylchu sydd wedi gwneud y cynnydd hwn yn llwyddiant.

Roedd yr Arweinydd hefyd yn dymuno i GBSP allu cyflawni safon uchel gyson ar draws ei holl brosiectau partneriaeth, y rheiny a oedd eisoes wedi'u sefydlu, a'r rheiny a oedd yn dal i gael eu datblygu.

Ond rydym hefyd wedi gweld tystiolaeth o safonau uchel ar draws nifer o feysydd. Er enghraifft, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru arolygiad swyddogol a chadarnhaodd fod yr Awdurdod hwn yn cymryd camau prydlon i gadw plant yn ddiogel rhag niwed.

Mae diogelu plant yn fusnes i bawb felly roedd agor y MASH, sef canolfan diogelu aml-asiantaeth leol yn Ravens Court y mis diwethaf gyda'r heddlu a phartneriaid allweddol yn

gam mawr ymlaen. Dim ond un o ystod o fentrau oedd hwn i gadw plant yn ddiogel a chynorthwyo teuluoedd.

Bydd datblygu gwasanaeth gofal maeth i rieni a phlant newydd yn fewnol eleni gyda phedwar gofalwr maeth newydd wedi'u recriwtio eisoes ac yn gweithio gyda mamau a'u babanod hefyd yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Roedd yn cynnig dewis arall i ddarpariaeth ddrud y tu allan i'r Sir ac yn Allanol.

Yn yr un modd, yr wythnos hon, lansiodd CBSP ei ymgyrch ar gyfer gofalwyr maeth arbenigol a all gynnig gofal seibiant brys a dewis amgen i ofal preswyl. Roedd yr aelodau wedi rhoi eu cefnogaeth lawn i'r gwasanaeth newydd hwn ac maent yn buddsoddi mewn ail-fodelu ein dau gartref plant.

Mae'r ffigurau perfformiad blaiddiad cenedlaethol yn dangos, am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, bod y Fwrdeistref Sirol wedi cael ei graddio'n gyntaf yng Nghymru am sicrhau na fydd unrhyw blant sy'n derbyn gofal yn gadael ysgol, hyfforddiant na cynlluniau dysgu yn y gwaith heb ennill cymwysterau cymeradwy.

Roedd CBSP ymhlith y pum ardal uchaf yng Nghymru ar gyfer nifer y bobl leol sy'n ymweld â llyfrgelloedd neu'n gwneud ymarfer corff yn ein canolfannau chwaraeon a hamdden, a gallwn edrych ymlaen at ddatblygiadau cyffrous iawn yn y dyfodol a fydd yn manteisio ar y llwyddiant hwn ymhellach.

Parhaodd ein Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yr 21ain ganrif flaenllaw i fynd ymlaen o nerth i nerth gydag agor ysgolion cynradd newydd ym Metws a Brynmenyn, a chyda gwaith ar y gweill ar gyfleusterau newydd sbon ym Mhencoed, roedd yr Adran Addysg yn barod i ddatgelu ysgol gynradd newydd yng Nghwm Garw y flwyddyn nesaf. Cam A yn unig oedd hwn. Roedd yr Aelodau hefyd wedi ymrwymo i Gam B yn ystod y misoedd diwethaf ychwanegodd.

Mae ymdrechion i greu cymuned newydd o breswylwyr sy'n byw yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr wedi gweld datblygiad newydd Cwrt Ty Afon yn cael ei ddatblygu yn y Rhiw ynghyd â maes parcio newydd, ac mae adfywio Porthcawl wedi cymryd cam hanesyddol enfawr ymlaen gyda datgloi safle datblygu Salt Lake o'r diwedd.

Roedd hwn yn ddatblygiad hynod bwysig yn ein cynlluniau adfywio, a byddwn yn gweithio'n agos gydag Aelodau Lleol, y Cyngor Tref, busnesau a phreswylwyr Porthcawl i wireddu'r cynlluniau.

Roedd hyn yn ychwanegiad at ddatblygiadau diweddar fel y prosiect amddiffyn arO blaiddiol gwerth miliynau o bunnoedd a fydd yn diogelu cartrefi a busnesau ar lan y môr, ac Adeilad Jennings a adnewyddwyd yn ddiweddar ac sydd wedi ennill gwobrau.

Roedd cynlluniau i drawsnewid Neuadd y Dref Maesteg hefyd wedi symud ymlaen, ac rydym yn disgwyl canlyniad ein cais diweddaraf am arian a fydd yn gweld yr hen adeilad hanesyddol yn cynnig cyfleusterau cymunedol newydd i bobl leol.

Roedd CBSP yn arloesi hefyd gyda dull newydd, cyfeillgar i'r amgylchedd o wresogi cartrefi a grëwyd trwy brosiect Dŵr Pwll Glo Caerau.

Hwn fyddai'r cyntaf o gynlluniau ar raddfa fawr yn y DU, ac ar thema debyg, roeddem hefyd yn ystyried y posibilrwydd o rannu gwres dros ben a gynhyrchir yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr a sicrhau ei fod ar gael i gartrefi lleol trwy Rwydwaith Gwres Pen-y-bont ar Ogwr, y prosiect cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Datblygiad newydd arall yr oedd yr Arweinydd yn arbennig o gyffrous yn ei gylch oedd Rhaglen y Ganolfan Menter newydd yr oedd y Cyngor wedi ei chefnogi yn ddiweddar.

Roedd hyn yn mynd i gefnogi'r economi leol trwy sefydlu unedau busnes newydd sbon ym Mharc Pentref Brocastle, Stad Ddiwydiannol Fferm Pentref y Pîl yn y Pîl, a Pharc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd ein partneriaeth â Linc Cymru yn darparu cyfleusterau Gofal Ychwanegol newydd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyda Thŷ Llwyn Derw ym Maesteg a Lôn Derw yn Ynysawdre wedi'u henwi yn ddiweddar.

Rhwng y rhain, byddent yn cynnig 40 o fflatiau Gofal Ychwanegol lle bydd pobl hŷn bregus yn gallu byw'n annibynnol ac yn cael mynediad at gefnogaeth 24 awr y dydd mewn amgylchedd diogel.

Fel rhan o'r cynllun, darperir pedwar ar bymtheg o dai fO blaiddiadwy i bobl hŷn hefyd.

Bu llawer o ddatblygiadau newydd eraill dros y flwyddyn ddiwethaf y gallai Aelodau fod yn falch ohonynt. Roedd hyn yn cynnwys y cynnig i roi cymorth sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael ein gofal trwy eu heithrio rhag gorfod talu treth y Cyngor, ein cefnogaeth i rieni a theuluoedd sy'n galaru trwy ddileu ffioedd claddu plant, lansio ein gwasanaeth Fy Nghyfrif newydd sy'n ei gwneud yn haws i bobl wneud busnes gyda'r Cyngor, a mwy, ychwanegodd yr Arweinydd.

Roedd yn sicr fod y flwyddyn i ddod yn mynd i ddod â datblygiadau newydd pellach a fyddai o fudd i genedlaethau a chymunedau'r dyfodol.

Er bod Aelodau o wahanol grwpiau neu bleidiau, teimlai eu bod i gyd yn unedig o ran pwrpas i weithio er lles pob cymuned leol.

Roedd am feithrin ac annog hyn, a gweld y Cyngor yn adeiladu ar ei lwyddiannau niferus a goresgyn pa bynnag anawsterau a oedd eto i'w hwynebu.

Roedd yr Arweinydd hefyd eisiau datblygu adnoddau'r Cyngor a sgiliau ei staff ymhellach, a pharhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau hanfodol wrth i ni edrych i'r dyfodol.

Gyda chefnogaeth barhaus Aelodau a Swyddogion, credai y gellid cyflawni hyn, ac y gallwn unwaith eto sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn barod ac yn abl ar gyfer yr hyn sydd o'n blaenau.

Yn olaf, ar ran yr Aelodau, estynnodd ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd Gary Thomas a'i ddyweddi, Kay, a fydd yn priodi ddydd Sadwrn nesaf. Gobeithiai y byddent yn mwynhau bywyd hapus iawn gyda'i gilydd yn y dyfodol.

183. YR ARWEINYDD I BENODI AELODAU'R CABINET

PENDERFYNWYD: Penododd yr Arweinydd yr Aelodau canlynol i'r Cabinet: -

Y Cynghorydd HW Williams
Y Cynghorydd D Patel
Y Cynghorydd PJ White
Y Cynghorydd CE Smith
Y Cynghorydd RE Young

184. GALLAI'R ARWEINYDD GYHOEDDI DIRPRWY ARWEINYDD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR O BLITH YR AELODAU HYNNY A BENODWYD I'R CABINET A GALLAI GYHOEDDI PENODI AELODAU'R CABINET I BORTFFOLIOS.

PENDERFYNWYD: Cyhoeddodd yr Arweinydd mai'r Dirprwy Arweinydd ar gyfer 2018/19 fyddai'r Cynghorydd H.M. Williams, ac y byddai'n gyfrifol am Adnoddau.

Ychwanegodd y byddai'r Aelodau Cabinet canlynol yn gyfrifol am y portffolios dan sylw: -

Y Cynghorydd D Patel - Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol

Y Cynghorydd P J White - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Y Cynghorydd R E Young - Cymunedau

Y Cynghorydd CE Smith - Addysg ac Adfywio

185. RHAGLEN ARFAETHEDIG O GYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR A PHWYLLGORAU'R CYNGOR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i gynnig rhaglen o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn drefol Mai 2018 - Ebrill 2019 i'w chymeradwyo (Atodiad 1 i'r adroddiad), ac i nodi'r rhaglen o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn drefol Mai 2019 - Ebrill 2020 (Atodiad 2 i'r adroddiad).

Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet, Pwyllgorau'r Cabinet a Chyd-bwyllgor y Cabinet (Amlosgfa Llangrallwg).

Cyhoeddodd y Swyddog Monitro fod un newid i'r rhaglen o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn 2018-2019 uchod, sef bod cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg ar Bynciau a Chraffu 1 dyddiedig 4 Gorffennaf 2018 i gael ei ddileu o'r amserlen, a bod dyddiad newydd yn mynd i gael ei drefnu ar gyfer y cyfarfod hwn, maes o law.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn: -

- (1) Cymeradwyo'r rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2018/19 fel y nodir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad, yn amodol ar y newid uchod.
- (2) Cymeradwyo'r rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Cyngor a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.
- (3) Nodi rhaglen dros dro cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau ar gyfer 2019/20, a nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.
- (4) Nodi dyddiadau Cabinet, Pwyllgorau'r Cabinet a Chyd-bwyllgor y Cabinet sydd hefyd wedi'u nodi yn Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad hwn, er gwybodaeth.

186. PENODIADAU I BWYLLGORAU'R CYNGOR A CHYRFF ERAILL Y CYNGOR YN UNOL Â DARPARIAETHAU DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 A DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer penodi Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a pha bynnag Bwyllgorau, Is-bwyllgorau, Panelau

a chyrff eraill y mae'r Cyngor yn ystyried eu bod yn briodol, i ymdrin â materion nad ydynt wedi'u neilltuo i'r Cyngor llawn nac ychwaith. swyddogaethau gweithredol.

Mae Rhan 3 o Gyfansoddiad y Cyngor o dan y teitl Cyfrifoldeb am Swyddogaethau'r Cyngor, yn nodi Pwyllgorau, Is-bwyllgorau, Paneli a chyrff eraill y Cyngor sydd ar waith ar hyn o bryd. Rhoddir manylion isod am rai Pwyllgorau, y mae rhai ohonynt yn cael eu llywodraethu gan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, o ran eu cyfansoddiad a/neu benodi Cadeiryddion.

Gwnaeth y Mesur nifer o ofynion mewn perthynas ag aelodaeth y Pwyllgor Archwilio, gan gynnwys Aelodaeth Leyg a phenodi'r Cadeirydd. Mae'n ofynnol i'r Cadeirydd dan y Mesur gael ei benodi gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod cyntaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer 28 Mehefin 2018. O ran Aelodaeth Leyg y Pwyllgor hwn, cafodd yr Aelod Lleyg ar hyn o bryd Ms J Williams ei hailbenodi am dymor pellach yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 17 Mai 2017 ac yn unol â'r Mesur, mae ganddi hawl i wneud uchafswm o ddau dymor ar y Pwyllgor yn y rôl hon.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys wyth aelod, sef: -

Pedwar Aelod Annibynnol (Dim swyddi gwag ar hyn o bryd);
Dau Aelod o Gyngor y Fwrdeistref Sirol (Dwy swydd wag);
Dau Aelod Cyngorau Tref /Cymuned (Un swydd wag);

Ar hyn o bryd mae swydd wag ar gyfer Cynghorydd Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau, ac felly argymhellwyd y dylid rhoi pŵer dirprwyedig i'r Swyddog Monitro ymgymryd ag unrhyw brosesau angenrheidiol i hwyluso a phenodi cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Safonau.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor Bwyllgor Penodi ar waith er mwyn cyfweld a phenodi staff lefel JNC, sy'n cynnwys swyddi dynodedig megis y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenathiaid Gwasanaeth. Mae aelodaeth y Pwyllgor hwn fel y nodir isod: -

- Arweinydd (Cadeirydd)
- Dirprwy Arweinydd
- Aelod Cabinet (o'r portffolio perthnasol i'r swydd)
- 1 x Aelod Ceidwadol
- 1 x Aelod Annibynnol
- 1 x Aelod Plaid Cymru

Bydd y Pwyllgor Penodiadau hefyd yn hwyluso Panel Penderfynu JNC a Phaneli Apeliadau JNC. Bydd y rhain yn cynnwys 3 aelod yr un gyda'r Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd yn cadeirio'r panel, gyda chymorth 1 cynrychiolydd yr un o'r grwpiau Ceidwadol ac Annibynnol. Caniateir amnewid aelodau'r Pwyllgor Penodiadau ond dim ond ar gyfer y broses penodiadau gyfan. Ni ellir amnewid Paneli'r JNC a rhaid i'r aelodau ddod o blith aelodaeth wreiddiol y Pwyllgor Penodiadau.

Roedd y Mesur hefyd yn sefydlu gweithdrefnau lle mae Cadeiryddion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael eu henwebu a'u penodi. Mae'r Mesur yn mynnu bod Cadeiryddion y Pwyllgorau hyn yn cael eu penodi fel isafswm ar sail maint a chydbwysedd gwleidyddol pob un o'r grwpiau sy'n rhan o'r Cyngor. Yn unol â chyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor, a'r fO blaidmiwla a ddefnyddir o dan y Mesur Llywodraeth Leol mewn perthynas â dyrannu Cadeiryddion Trosolwg a Chraffu, dylai'r rhain gael eu dyrannu i'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

Grŵp Gwleidyddol	Nifer y Cadeiryddion i'w dyrannu
Llafur	1 Cadeirydd
Ceidwadwyr	1 Cadeirydd
Cynghrair Annibynnol	1 Cadeirydd
Annibynwyr Llynfi	0 Cadeirydd
Plaid Cymru	0 Cadeirydd

Nid yw newid diweddar i gyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor wedi effeithio ar ddyraniad Cadeiryddion Trosolwg a Chraffu fel uchod.

Nid yw swydd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu CorfO blaidaethol wedi ei dyrannu ac felly yn unol â'r Mesur, bydd yn cael ei benodi gan aelodau'r Pwyllgor Craffu CorfO blaidaethol o blith un o Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu ar Bynciau ond ni all fod yn Gadeirydd sy'n cynrychioli'r Grŵp Gweithredol.

Roedd gweddill yr adroddiad yn rhoi manylion am Gynrychiolwyr Cofrestredig ar Bwyllgorau; sut y mae'n rhaid ffurfio cyfansoddiad y Pwyllgor Rheoli Datblygu, ac na ddylai Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd fod yn Aelod o'r grŵp mwyafrifol.

Mae cylch gwaith a swyddogaethau presennol y Pwyllgorau a chyrrff eraill y Cyngor yn parhau heb eu newid fel y manylir arnynt yn Rhan 3 y Cyfansoddiad - Cyfrifoldeb am Swyddogaethau'r Cyngor a chawsant eu hatodi yn **Atodiad 1** yr adroddiad.

Mae cydbwysedd gwleidyddol yn hanfodol i bennu dyraniad seddau ar Bwyllgorau. Dangosir cydbwysedd gwleidyddol presennol y Pwyllgorau a chyrrff eraill yn **Atodiad 2** yr adroddiad.

Dangosir strwythur y pwyllgorau presennol yn **Atodiad 3** yr adroddiad .

Mae aelodaeth bresennol y pwyllgorau a fydd yn sail i unrhyw newidiadau i aelodaeth y pwyllgorau ynghlwm yn **Atodiad 4** yr adroddiad.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod penodi Cadeiryddion rhai Pwyllgorau ac ati, (lle y nodir isod) yn cael ei gynnal trwy gyfres o bleidleisiau a gofnodwyd, ac felly cymerwyd pleidlais electronig ar hyn, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn: -

<u>Dros</u>	<u>Yn erbyn</u>	<u>Ymatal</u>
-------------	-----------------	---------------

51	0	0
----	---	---

<u>Dros</u>	<u>Yn erbyn</u>	<u>Ymatal</u>
-------------	-----------------	---------------

32	2	17
----	---	----

186.1 Penodiad Cadeirydd Panel Apeliadau

Penodiad Cadeirydd Panel Apeliadau (Penderfynwyd)	
Cynghorydd Sean Aspey	Yn erbyn
Cynghorydd Stuart Baldwin	O blaid
Cynghorydd Tom Beedle	Ymatal
Cynghorydd Jon-Paul Blundell	O blaid
Cynghorydd Nicole Burnett	O blaid
Cynghorydd Mike Clarke	Ymatal
Cynghorydd Norah Clarke	Ymatal

CYNGOR - DYDD MERCHER, 16 MAI 2018

Cynghorydd Richard Collins	O blaid
Cynghorydd Huw David	O blaid
Cynghorydd Paul Davies	O blaid
Cynghorydd Pam Davies	O blaid
Cynghorydd Sorrel Dendy	Ymatal
Cynghorydd Keith Edwards	Ymatal
Cynghorydd Jane Gebbie	O blaid
Cynghorydd Tom Giffard	Ymatal
Cynghorydd Richard Granville	O blaid
Cynghorydd Cheryl Green	Ymatal
Cynghorydd Gareth Howells	O blaid
Cynghorydd Altaf Hussain	Yn erbyn
Cynghorydd Malcolm James	O blaid
Cynghorydd Brian Jones	Ymatal
Cynghorydd Martyn Jones	O blaid
Cynghorydd Mike Kearns	O blaid
Cynghorydd David Lewis	O blaid
Cynghorydd Janice Lewis	O blaid
Cynghorydd John McCarthy	O blaid
Cynghorydd David Owen	Ymatal
Cynghorydd Dhanisha Patel	O blaid
Cynghorydd Ross Penhale-Thomas	Ymatal
Cynghorydd Aniel Pucella	O blaid
Cynghorydd Kay Rowlands	O blaid
Cynghorydd Rod Shaw	O blaid
Cynghorydd Charles Smith	O blaid
Cynghorydd Stephen Smith	O blaid
Cynghorydd John Spanswick	O blaid
Cynghorydd Roz Stirman	Ymatal
Cynghorydd Gary Thomas	O blaid
Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE	O blaid
Cynghorydd Elaine Venables	O blaid
Cynghorydd Sadie Vidal	Ymatal
Cynghorydd Matthew Voisey	Ymatal
Cynghorydd Lyn Walters	O blaid
Cynghorydd Ken Watts	Ymatal
Cynghorydd Carolyn Webster	Ymatal
Cynghorydd David White	O blaid
Cynghorydd Philip White	O blaid
Cynghorydd Alex Williams	Ymatal
Cynghorydd Amanda Williams	Ymatal
Cynghorydd Hywel Williams	O blaid
Cynghorydd Julia Williams	O blaid
Cynghorydd Richard Young	O blaid
Cariwyd	

<u>Dros</u>	<u>Yn erbyn</u>	<u>Ymatal</u>
21	0	26

186.2 Penodiad Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd

Penodiad Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd (Penderfynwyd)	
Cynghorydd Sean Aspey	O blaid
Cynghorydd Stuart Baldwin	Ymatal

CYNGOR - DYDD MERCHER, 16 MAI 2018

Cynghorydd Tom Beedle	O blaid
Cynghorydd Jon-Paul Blundell	Ymatal
Cynghorydd Nicole Burnett	Ymatal
Cynghorydd Mike Clarke	O blaid
Cynghorydd Norah Clarke	O blaid
Cynghorydd Richard Collins	Ymatal
Cynghorydd Huw David	Ymatal
Cynghorydd Paul Davies	Ymatal
Cynghorydd Pam Davies	Ymatal
Cynghorydd Sorrel Dendy	O blaid
Cynghorydd Keith Edwards	Ymatal
Cynghorydd Jane Gebbie	Ymatal
Cynghorydd Tom Giffard	Ymatal
Cynghorydd Richard Granville	Ymatal
Cynghorydd Cheryl Green	O blaid
Cynghorydd Gareth Howells	Ymatal
Cynghorydd Altaf Hussain	O blaid
Cynghorydd Malcolm James	O blaid
Cynghorydd Brian Jones	O blaid
Cynghorydd Martyn Jones	O blaid
Cynghorydd Mike Kearns	Ymatal
Cynghorydd David Lewis	Ymatal
Cynghorydd Janice Lewis	Ymatal
Cynghorydd John McCarthy	Ymatal
Cynghorydd David Owen	O blaid
Cynghorydd Dhanisha Patel	Dim pleidlais
Cynghorydd Ross Penhale-Thomas	O blaid
Cynghorydd Aniel Pucella	O blaid
Cynghorydd Kay Rowlands	O blaid
Cynghorydd Rod Shaw	Ymatal
Cynghorydd Charles Smith	Ymatal
Cynghorydd Stephen Smith	Ymatal
Cynghorydd John Spanswick	Ymatal
Cynghorydd Roz Stirman	O blaid
Cynghorydd Gary Thomas	Dim pleidlais
Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE	O blaid
Cynghorydd Elaine Venables	O blaid
Cynghorydd Sadie Vidal	Ymatal
Cynghorydd Matthew Voisey	O blaid
Cynghorydd Lyn Walters	O blaid
Cynghorydd Ken Watts	O blaid
Cynghorydd Carolyn Webster	Ymatal
Cynghorydd David White	Ymatal
Cynghorydd Philip White	Ymatal
Cynghorydd Alex Williams	Dim pleidlais
Cynghorydd Amanda Williams	O blaid
Cynghorydd Hywel Williams	Ymatal
Cynghorydd Julia Williams	Dim pleidlais
Cynghorydd Richard Young	Ymatal
Cariwyd	

Dros

Yn erbyn

Ymatal

34

1

16

186.3 Penodiad Cadierydd Pwyllgor Datblygiad a Rheoli

Penodiad Cadeirydd Pwyllgor Datblygiad a Rheoli (Penderfynwyd)	
Cynghorydd Sean Aspey	O blaid
Cynghorydd Stuart Baldwin	O blaid
Cynghorydd Tom Beedle	Ymatal
Cynghorydd Jon-Paul Blundell	O blaid
Cynghorydd Nicole Burnett	O blaid
Cynghorydd Mike Clarke	Ymatal
Cynghorydd Norah Clarke	Ymatal
Cynghorydd Richard Collins	O blaid
Cynghorydd Huw David	O blaid
Cynghorydd Paul Davies	O blaid
Cynghorydd Pam Davies	O blaid
Cynghorydd Sorrel Dendy	Ymatal
Cynghorydd Keith Edwards	Yn erbyn
Cynghorydd Jane Gebbie	O blaid
Cynghorydd Tom Giffard	Ymatal
Cynghorydd Richard Granville	O blaid
Cynghorydd Cheryl Green	Ymatal
Cynghorydd Gareth Howells	O blaid
Cynghorydd Altaf Hussain	O blaid
Cynghorydd Malcolm James	O blaid
Cynghorydd Brian Jones	Ymatal
Cynghorydd Martyn Jones	O blaid
Cynghorydd Mike Kearns	O blaid
Cynghorydd David Lewis	O blaid
Cynghorydd Janice Lewis	O blaid
Cynghorydd John McCarthy	O blaid
Cynghorydd David Owen	O blaid
Cynghorydd Dhanisha Patel	O blaid
Cynghorydd Ross Penhale-Thomas	Ymatal
Cynghorydd Aniel Pucella	O blaid
Cynghorydd Kay Rowlands	Ymatal
Cynghorydd Rod Shaw	O blaid
Cynghorydd Charles Smith	O blaid
Cynghorydd Stephen Smith	O blaid
Cynghorydd John Spanswick	O blaid
Cynghorydd Roz Stirman	O blaid
Cynghorydd Gary Thomas	O blaid
Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE	O blaid
Cynghorydd Elaine Venables	Ymatal
Cynghorydd Sadie Vidal	Ymatal
Cynghorydd Matthew Voisey	O blaid
Cynghorydd Lyn Walters	Ymatal
Cynghorydd Ken Watts	Ymatal
Cynghorydd Carolyn Webster	Ymatal
Cynghorydd David White	O blaid
Cynghorydd Philip White	O blaid
Cynghorydd Alex Williams	Ymatal
Cynghorydd Amanda Williams	Ymatal
Cynghorydd Hywel Williams	O blaid
Cynghorydd Julia Williams	O blaid
Cynghorydd Richard Young	O blaid
Cariwyd	

CYNGOR - DYDD MERCHER, 16 MAI 2018

<u>Dros</u>	<u>Yn erbyn</u>	<u>Ymatal</u>
32	2	17

186.4 Penodiad Cadeirydd Pwyllgor Trwyddedu / Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003

Penodiad Cadeirydd Pwyllgor Trwyddedu / Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 (Penderfynwyd)	
Cynghorydd Sean Aspey	Yn erbyn
Cynghorydd Stuart Baldwin	O blaid
Cynghorydd Tom Beedle	Ymatal
Cynghorydd Jon-Paul Blundell	O blaid
Cynghorydd Nicole Burnett	O blaid
Cynghorydd Mike Clarke	Ymatal
Cynghorydd Norah Clarke	Ymatal
Cynghorydd Richard Collins	O blaid
Cynghorydd Huw David	O blaid
Cynghorydd Paul Davies	O blaid
Cynghorydd Pam Davies	O blaid
Cynghorydd Sorrel Dendy	Ymatal
Cynghorydd Keith Edwards	Yn erbyn
Cynghorydd Jane Gebbie	O blaid
Cynghorydd Tom Giffard	Ymatal
Cynghorydd Richard Granville	O blaid
Cynghorydd Cheryl Green	Ymatal
Cynghorydd Gareth Howells	O blaid
Cynghorydd Altaf Hussain	O blaid
Cynghorydd Malcolm James	O blaid
Cynghorydd Brian Jones	Ymatal
Cynghorydd Martyn Jones	O blaid
Cynghorydd Mike Kearns	O blaid
Cynghorydd David Lewis	O blaid
Cynghorydd Janice Lewis	O blaid
Cynghorydd John McCarthy	O blaid
Cynghorydd David Owen	O blaid
Cynghorydd Dhanisha Patel	O blaid
Cynghorydd Ross Penhale-Thomas	Ymatal
Cynghorydd Aniel Pucella	O blaid
Cynghorydd Kay Rowlands	Ymatal
Cynghorydd Rod Shaw	O blaid
Cynghorydd Charles Smith	O blaid
Cynghorydd Stephen Smith	O blaid
Cynghorydd John Spanswick	O blaid
Cynghorydd Roz Stirman	Ymatal
Cynghorydd Gary Thomas	O blaid
Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE	O blaid
Cynghorydd Elaine Venables	Ymatal
Cynghorydd Sadie Vidal	Ymatal
Cynghorydd Matthew Voisey	Ymatal
Cynghorydd Lyn Walters	O blaid
Cynghorydd Ken Watts	Ymatal
Cynghorydd Carolyn Webster	Ymatal
Cynghorydd David White	O blaid
Cynghorydd Philip White	O blaid
Cynghorydd Alex Williams	Ymatal

CYNGOR - DYDD MERCHER, 16 MAI 2018

Cynghorydd Amanda Williams	Ymatal
Cynghorydd Hywel Williams	O blaid
Cynghorydd Julia Williams	O blaid
Cynghorydd Richard Young	O blaid
Cariwyd	

<u>Dros</u>	<u>Yn erbyn</u>	<u>Ymatal</u>
32	2	15

186.5 Penodiad Cadeirydd Fforwm Cyngor Tref a Chymuned

Penodiad Cadeirydd Fforwm Cyngor Tref a Chymuned (Penderfynwyd)	
Cynghorydd Sean Aspey	Yn erbyn
Cynghorydd Stuart Baldwin	O blaid
Cynghorydd Tom Beedle	Ymatal
Cynghorydd Jon-Paul Blundell	O blaid
Cynghorydd Nicole Burnett	O blaid
Cynghorydd Mike Clarke	Ymatal
Cynghorydd Norah Clarke	O blaid
Cynghorydd Richard Collins	O blaid
Cynghorydd Huw David	O blaid
Cynghorydd Paul Davies	O blaid
Cynghorydd Pam Davies	O blaid
Cynghorydd Sorrel Dendy	Ymatal
Cynghorydd Keith Edwards	Ymatal
Cynghorydd Jane Gebbie	O blaid
Cynghorydd Tom Giffard	Yn erbyn
Cynghorydd Richard Granville	O blaid
Cynghorydd Cheryl Green	O blaid
Cynghorydd Gareth Howells	O blaid
Cynghorydd Altaf Hussain	Dim pleidlais
Cynghorydd Malcolm James	O blaid
Cynghorydd Brian Jones	Ymatal
Cynghorydd Martyn Jones	O blaid
Cynghorydd Mike Kearns	O blaid
Cynghorydd David Lewis	O blaid
Cynghorydd Janice Lewis	O blaid
Cynghorydd John McCarthy	O blaid
Cynghorydd David Owen	Ymatal
Cynghorydd Dhanisha Patel	O blaid
Cynghorydd Ross Penhale-Thomas	Ymatal
Cynghorydd Aniel Pucella	O blaid
Cynghorydd Kay Rowlands	Ymatal
Cynghorydd Rod Shaw	O blaid
Cynghorydd Charles Smith	O blaid
Cynghorydd Stephen Smith	O blaid
Cynghorydd John Spanswick	O blaid
Cynghorydd Roz Stirman	Ymatal
Cynghorydd Gary Thomas	O blaid
Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE	O blaid
Cynghorydd Elaine Venables	Ymatal
Cynghorydd Sadie Vidal	Ymatal
Cynghorydd Matthew Voisey	O blaid
Cynghorydd Lyn Walters	O blaid

CYNGOR - DYDD MERCHER, 16 MAI 2018

Cynghorydd Ken Watts	Ymatal
Cynghorydd Carolyn Webster	Ymatal
Cynghorydd David White	O blaid
Cynghorydd Philip White	Dim pleidlais
Cynghorydd Alex Williams	Ymatal
Cynghorydd Amanda Williams	Ymatal
Cynghorydd Hywel Williams	O blaid
Cynghorydd Julia Williams	O blaid
Cynghorydd Richard Young	O blaid
Cariwyd	

<u>Dros</u>	<u>Yn erbyn</u>	<u>Ymatal</u>
20	5	24

186.6 Penodiad Cadeirydd Pwyllgor Craffu Testun 1

Penodiad Cadeirydd Pwyllgor Craffu Testun 1 (Penderfynwyd)	
Cynghorydd Sean Aspey	O blaid
Cynghorydd Stuart Baldwin	Ymatal
Cynghorydd Tom Beedle	Ymatal
Cynghorydd Jon-Paul Blundell	Ymatal
Cynghorydd Nicole Burnett	O blaid
Cynghorydd Mike Clarke	O blaid
Cynghorydd Norah Clarke	O blaid
Cynghorydd Richard Collins	Ymatal
Cynghorydd Huw David	Ymatal
Cynghorydd Paul Davies	Ymatal
Cynghorydd Pam Davies	Ymatal
Cynghorydd Sorrel Dendy	O blaid
Cynghorydd Keith Edwards	Yn erbyn
Cynghorydd Jane Gebbie	Ymatal
Cynghorydd Tom Giffard	O blaid
Cynghorydd Richard Granville	Ymatal
Cynghorydd Cheryl Green	O blaid
Cynghorydd Gareth Howells	Ymatal
Cynghorydd Altaf Hussain	O blaid
Cynghorydd Malcolm James	O blaid
Cynghorydd Brian Jones	O blaid
Cynghorydd Martyn Jones	Ymatal
Cynghorydd Mike Kearns	Ymatal
Cynghorydd David Lewis	Ymatal
Cynghorydd Janice Lewis	Ymatal
Cynghorydd John McCarthy	Ymatal
Cynghorydd David Owen	O blaid
Cynghorydd Dhanisha Patel	Dim pleidlais
Cynghorydd Ross Penhale-Thomas	Ymatal
Cynghorydd Aniel Pucella	O blaid
Cynghorydd Kay Rowlands	O blaid
Cynghorydd Rod Shaw	Ymatal
Cynghorydd Charles Smith	Ymatal
Cynghorydd Stephen Smith	Ymatal
Cynghorydd John Spanswick	Ymatal
Cynghorydd Roz Stirman	Yn erbyn
Cynghorydd Gary Thomas	O blaid

CYNGOR - DYDD MERCHER, 16 MAI 2018

Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE	O blaid
Cynghorydd Elaine Venables	Ymatal
Cynghorydd Sadie Vidal	O blaid
Cynghorydd Matthew Voisey	O blaid
Cynghorydd Lyn Walters	O blaid
Cynghorydd Ken Watts	Yn erbyn
Cynghorydd Carolyn Webster	O blaid
Cynghorydd David White	Ymatal
Cynghorydd Philip White	Dim pleidlais
Cynghorydd Alex Williams	Yn erbyn
Cynghorydd Amanda Williams	O blaid
Cynghorydd Hywel Williams	Ymatal
Cynghorydd Julia Williams	Yn erbyn
Cynghorydd Richard Young	Ymatal
Cariwyd	

<u>Dros</u>	<u>Yn erbyn</u>	<u>Ymatal</u>
28	1	20

186.7 Penodiad Cadeirydd Pwyllgor Craffu Testun 2

Penodiad Cadeirydd Pwyllgor Craffu Testun 2 (Penderfynwyd)	
Cynghorydd Sean Aspey	O blaid
Cynghorydd Stuart Baldwin	Ymatal
Cynghorydd Tom Beedle	O blaid
Cynghorydd Jon-Paul Blundell	Ymatal
Cynghorydd Nicole Burnett	Ymatal
Cynghorydd Mike Clarke	O blaid
Cynghorydd Norah Clarke	O blaid
Cynghorydd Richard Collins	Ymatal
Cynghorydd Huw David	Ymatal
Cynghorydd Paul Davies	Ymatal
Cynghorydd Pam Davies	Ymatal
Cynghorydd Sorrel Dendy	O blaid
Cynghorydd Keith Edwards	O blaid
Cynghorydd Jane Gebbie	Ymatal
Cynghorydd Tom Giffard	O blaid
Cynghorydd Richard Granville	Ymatal
Cynghorydd Cheryl Green	O blaid
Cynghorydd Gareth Howells	Ymatal
Cynghorydd Altaf Hussain	O blaid
Cynghorydd Malcolm James	O blaid
Cynghorydd Brian Jones	O blaid
Cynghorydd Martyn Jones	O blaid
Cynghorydd Mike Kearns	Ymatal
Cynghorydd David Lewis	Ymatal
Cynghorydd Janice Lewis	Ymatal
Cynghorydd John McCarthy	Ymatal
Cynghorydd David Owen	O blaid
Cynghorydd Dhanisha Patel	Dim pleidlais
Cynghorydd Ross Penhale-Thomas	O blaid
Cynghorydd Aniel Pucella	O blaid
Cynghorydd Kay Rowlands	O blaid
Cynghorydd Rod Shaw	Ymatal

CYNGOR - DYDD MERCHER, 16 MAI 2018

Cynghorydd Charles Smith	Ymatal
Cynghorydd Stephen Smith	O blaid
Cynghorydd John Spanswick	Ymatal
Cynghorydd Roz Stirman	O blaid
Cynghorydd Gary Thomas	O blaid
Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE	Yn erbyn
Cynghorydd Elaine Venables	O blaid
Cynghorydd Sadie Vidal	O blaid
Cynghorydd Matthew Voisey	O blaid
Cynghorydd Lyn Walters	O blaid
Cynghorydd Ken Watts	O blaid
Cynghorydd Carolyn Webster	O blaid
Cynghorydd David White	Ymatal
Cynghorydd Philip White	Dim pleidlais
Cynghorydd Alex Williams	O blaid
Cynghorydd Amanda Williams	O blaid
Cynghorydd Hywel Williams	Ymatal
Cynghorydd Julia Williams	O blaid
Cynghorydd Richard Young	Ymatal
Cariwyd	

<u>Dros</u>	<u>Yn erbyn</u>	<u>Ymatal</u>
38	4	8

186.8 Penodiad Cadeirydd Pwyllgor Craffu Testun 3

Penodiad Cadeirydd Pwyllgor Craffu Testun 2 (Penderfynwyd)	
Cynghorydd Sean Aspey	O blaid
Cynghorydd Stuart Baldwin	O blaid
Cynghorydd Tom Beedle	Ymatal
Cynghorydd Jon-Paul Blundell	O blaid
Cynghorydd Nicole Burnett	O blaid
Cynghorydd Mike Clarke	O blaid
Cynghorydd Norah Clarke	O blaid
Cynghorydd Richard Collins	O blaid
Cynghorydd Huw David	O blaid
Cynghorydd Paul Davies	O blaid
Cynghorydd Pam Davies	O blaid
Cynghorydd Sorrel Dendy	Ymatal
Cynghorydd Keith Edwards	Yn erbyn
Cynghorydd Jane Gebbie	O blaid
Cynghorydd Tom Giffard	Yn erbyn
Cynghorydd Richard Granville	O blaid
Cynghorydd Cheryl Green	O blaid
Cynghorydd Gareth Howells	O blaid
Cynghorydd Altaf Hussain	O blaid
Cynghorydd Malcolm James	O blaid
Cynghorydd Brian Jones	Ymatal
Cynghorydd Martyn Jones	O blaid
Cynghorydd Mike Kearns	O blaid
Cynghorydd David Lewis	O blaid
Cynghorydd Janice Lewis	O blaid
Cynghorydd John McCarthy	O blaid
Cynghorydd David Owen	Ymatal

CYNGOR - DYDD MERCHER, 16 MAI 2018

Cynghorydd Dhanisha Patel	O blaid
Cynghorydd Ross Penhale-Thomas	Ymatal
Cynghorydd Aniel Pucella	Dim pleidlais
Cynghorydd Kay Rowlands	Yn erbyn
Cynghorydd Rod Shaw	O blaid
Cynghorydd Charles Smith	O blaid
Cynghorydd Stephen Smith	O blaid
Cynghorydd John Spanswick	O blaid
Cynghorydd Roz Stirman	Ymatal
Cynghorydd Gary Thomas	O blaid
Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE	O blaid
Cynghorydd Elaine Venables	Ymatal
Cynghorydd Sadie Vidal	Yn erbyn
Cynghorydd Matthew Voisey	O blaid
Cynghorydd Lyn Walters	O blaid
Cynghorydd Ken Watts	O blaid
Cynghorydd Carolyn Webster	O blaid
Cynghorydd David White	O blaid
Cynghorydd Philip White	O blaid
Cynghorydd Alex Williams	O blaid
Cynghorydd Amanda Williams	Ymatal
Cynghorydd Hywel Williams	O blaid
Cynghorydd Julia Williams	O blaid
Cynghorydd Richard Young	O blaid
Cariwyd	

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn:-

(1) Penodi'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac unrhyw Bwyllgorau eraill y mae'r Cyngor yn ystyried sy'n briodol i ddelio â materion nad ydynt wedi'u neilltuo i'r Cyngor nac yn swyddogaethau gweithredol;

(2) Penderfynu ar faint a chylch gorchwyl y Pwyllgorau hynny fel y'u nodir yn **Atodiad 1** yr adroddiad;

(3) Penderfynu ar ddyrannu seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol fel y'u nodir yn **Atodiad 2** yr adroddiad;

(4) Penderfynu pa grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cyngor sydd â'r hawl i wneud pa benodiadau o ran Cadeiryddion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu;

(5) Derbyn enwebiadau a phenodi Cynghorwyr i wasanaethu ar bob un o'r Pwyllgorau, Paneli a chyrrff eraill (fel y nodir);

- Panel Apeliadau
- Pwyllgor Penodiadau (Cadeirydd - Yr Arweinydd)
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Pwyllgor Rheoli Datblygu
- Pwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003
- FO blaidwm y Cynghorau Tref a Chymuned
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 1
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 2

- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 3
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu CorfO blaidaethol

(6) Derbyn enwebiadau a phenodi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau, y Paneli a'r cyrff eraill canlynol (fel y nodwyd) gan nodi y bydd y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod cyntaf a drefnir yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd:-

- 1) Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol y dylid enwebu'r Cynghorydd J. E. Lewis yn Gadeirydd y Panel Apeliadau. Cynhaliwyd pleidlais a gofnodwyd ynghylch y penodiad hwn yn ogystal â gweddill y Cadeiryddion a benodwyd i'r cyrff a grybwyllir isod, a chafodd y canlyniadau eu cynnwys yn yr **Atodiad** i'r Cofnodion hyn:-

Felly penodwyd y Cynghorydd J. E. Lewis yn Gadeirydd y Panel Apeliadau (Manylion y bleidlais a gofnodwyd ynghlwm).

Enwebwyd y Cynghorydd N. Burnett yn Is-Gadeirydd y Panel Apeliadau gan na chafwyd unrhyw enwebiadau pellach. Felly cafodd y penodiad hwn ei dderbyn trwy gytundeb.

- 2) Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol y dylid enwebu'r Cynghorydd E. Venables yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Penodwyd y Cynghorydd E. Venables yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Manylion y bleidlais a gofnodwyd ynghlwm.) Nid oedd Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn.

- 3) Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol y dylid enwebu'r Cynghorydd G. Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu:-

Felly, penodwyd y Cynghorydd G. Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu. (Manylion y bleidlais a gofnodwyd ynghlwm.)

Enwebwyd y Cynghorydd R.M. Granville yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ac ni chafwyd unrhyw enwebiadau pellach. Yna cafodd y penodiad hwn ei dderbyn trwy gytundeb.

- 4) Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol y dylid enwebu'r Cynghorydd D. Lewis yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu / Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003. (Manylion y bleidlais a gofnodwyd ynghlwm.)

Felly, penodwyd y Cynghorydd D. Lewis yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu / Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003.

Enwebwyd y Cynghorydd P.A. Davies yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu / Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 gan nad oedd unrhyw enwebiadau pellach. Yna cafodd y penodiad hwn ei dderbyn trwy gytundeb.

- 5) Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol y dylid enwebu'r Cynghorydd H.J. David yn Gadeirydd FO blaidwm y Cynghorau Tref a Chymuned. (Manylion y bleidlais a gofnodwyd ynghlwm.)

Felly, penodwyd y Cynghorydd H.J. David yn Gadeirydd FO blaidwm y Cynghorau Tref a Chymuned.

Enwebwyd y Cynghorydd C.E. Smith yn Is-Gadeirydd FO blaidwm y Cyngorau Tref a Chymuned ac ni chafwyd unrhyw enwebiadau pellach. Yna cafodd y penodiad hwn ei dderbyn trwy gytundeb.

- 6) Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol fod y Cynghorydd C.A. Webster yn cael ei enwebu'n Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg ar Bynciau a Chraffu 1. (Manylion y bleidlais a gofnodwyd ynghlwm)

Felly, penodwyd y Cynghorydd C.A. Webster yn Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg ar Bynciau a Chraffu 1.

- 7) Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol y dylid enwebu'r Cynghorydd C.A. Green yn Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg ar Bynciau a Chraffu 2. (Manylion y bleidlais a gofnodwyd ynghlwm)

Felly, penodwyd y Cynghorydd C.A. Green yn Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg ar Bynciau a Chraffu 2.

- 8) Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol y dylid enwebu'r Cynghorydd J.C. Spanswick, yn Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg ar Bynciau a Chraffu 3. (Manylion y bleidlais a gofnodwyd ynghlwm)

Felly, penodwyd y Cynghorydd J.C. Spanswick yn Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg ar Bynciau a Chraffu 3.

- (7) Nodwyd na phenodwyd Is-Gadeirydd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu uchod.
- (8) Cymeradwyo rhoi pŵer dirprwyedig i'r Swyddog Monitro i hwyluso a phenodi un cynrychiolydd Cyngorau Tref /Cymuned ar y Pwyllgor Safonau, yn unol â darpariaethau paragraff 4.3 yr adroddiad.

187. CYNYRCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL A PHWYLLGORAU ERAILL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr CorfO blaidaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i benodi Aelodau i Banel Heddlu a Throseddau De Cymru, a Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r enwebiadau canlynol i'r cyrff a restrir isod: -

Panel Heddlu a Throseddau De Cymru - Y Cynghorydd R.E. Young

Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru - Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu - Y Cynghorydd G. Thomas

188. EITEMAU BRYD

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:55